



Cefnogi pobl drwy'r argyfwng costau byw

cyngor ar
bopeth

citizens
advice

Adroddiad effaith
2022-2023

Ni yw Cyngor ar Bopeth Cymru

Gallwn ni i gyd wynebu problemau sy'n ymddangos yn gymhleth neu'n fygythiol. Yn Cyngor ar Bopeth Cymru, credwn na ddylai neb orfod wynebu'r problemau hyn heb gyngor annibynnol o ansawdd da.

Mae gwasanaeth Cyngor ar Bopeth Cymru yn cynnig cyngor cyfrinachol am ddim ar-lein, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.

Pan rydym yn dweud ein bod ni i bawb, rydyn ni'n ei olygu. Mae pobl yn dibynnu arnom ni oherwydd ein bod yn annibynnol ac yn gwbl ddiuedd.

Nid oes neb arall yn gweld cymaint o bobl â chymaint o wahanol fathau o broblemau, ac mae hynny'n rhoi cipolwg unigryw i ni ar yr heriau y mae pobl yn eu hwynebu heddiw. Gyda'r dystiolaeth gywir, gallwn ddangos i sefydliadau mawr – o gwmnïau hyd at y llywodraeth – sut y gallant wneud pethau'n well i bobl.

Dyna pam rydyn ni yma: i roi'r wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen ar bobl i ddod o hyd i'w ffordd ymlaen - pwy bynnag ydyn nhw, a beth bynnag yw eu problem.

Fedra i ddim diolch digon i chi. Rydw i wedi bod yn cario o gwmpas y galar hwn ac yn poeni am fy nyled. Mae'n teimlo fel eich bod chi wedi ychwanegu blynyddoedd at fy mywyd.

Neges gan Simon Hatch, Cyfarwyddwr Cyngor ar Bopeth Cymru

Mae wedi bod yn fraith ymuno â'r sefydliad eleni a gweld cyrhaeddiad ac effaith anhygoel ein gwasanaethau a'n cefnogaeth i gymunedau ledled y wlad. Wrth dreulio amser yn gwrando ar gydwethwyr ledled Cymru rwyf wedi gweld yr ansawdd a'r gofal a ddangosir gan y gwirfoddolwyr a'r staff sy'n gweithio i Gyngor ar Bopeth Cymru yn genedlaethol ac yn lleol. Mae gennym gannoedd o bobl hyfforddedig, fedrus a thalentog iawn sy'n darparu cyngor annibynnol, diduedd bob dydd.

Mae angen Cyngor ar Bopeth Cymru nawr yn fwy nag erioed. Mae nifer y bobl sy'n methu fforddio gwresogi eu cartrefi na thalu eu biliau ar ddiwedd pob mis yn parhau i dyfu. Rydym yn dal i fyw mewn argyfwng costau byw yng Nghymru ac mae'n cael effaith ddramatig a niweidiol ar ein cymdeithas. Mae Cyngor ar Bopeth yn helpu mwy o bobl yng Nghymru nag erioed o'r blaen, ond rydym hefyd yn gweld cynnydd hyd yn oed yn fwy yn nifer y bobl sydd eisiau ac angen mynediad i'n gwasanaethau.

Mae ein partneriaethau hanfodol, gan gynnwys gyda Llywodraeth Cymru, yn ein galluogi i gefnogi'r cymunedau mwyaf agored i niwed ac sydd ar y cyrion yng Nghymru. Fel elusen mae angen cymorth arnom i barhau i gyflawni'r gwaith hanfodol hwn. Yn y flwyddyn i ddod byddwn yn parhau i weithio'n galed i sicrhau bod mynediad at gyngor annibynnol, diduedd bob amser ar gael, yn Gymraeg ac yn Saesneg, i helpu pobl i ddod o hyd i ffordd ymlaen.

Fel rhan o'n hymrwymiad i weithio ar draws dwy wlad, rydym yn cynnig gwasanaethau penodol ac eiriolaeth i bobl rydym yn eu cefnogi ledled Cymru. Fe wnaethom helpu 154,000 o bobl yn uniongyrchol yn 2022-2023 o gymharu â 134,000 o bobl y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 14%. Cafodd ein gwefan gyngor **1.3 miliwn** o ymweliadau. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai enghreifftiau o'r effaith bwerus y mae ein gwaith wedi'i chael, a rhai o'r straeon y tu ôl i'r niferoedd mawr.

Fe wnaethom helpu
154,000 o bobl
yn uniongyrchol
yn 2022-2023 o
gymharu â 134,000
o bobl y flwyddyn
flaenorol, cynnydd
o 14%.

Ein heffaith mewn niferoedd

Mewn blwyddyn anodd arall, roeddem yno i helpu miliynau i ddod o hyd i ffordd ymlaen.



1.3 miliwn

o ymweliadau â'n gwefan



123,835

o bobl yn defnyddio ein gwasanaethau ffôn



50,375

o bobl yn cael cymorth drwy e-bost



21,446

o bobl wedi'i helpu wyneb yn wyneb



11,367

o bobl wedi'i helpu drwy gwe-sgwrs



4,512

o dystion wedi'i helpu drwy'r Gwasanaeth Tystion*

* Rydym yn darparu cymorth annibynnol rhad ac am ddim i dystion a dioddefwyr ym mhob llys troseddol yng Nghymru, i'w helpu i roi eu tystiolaeth orau. Mae ein gwasanaeth yn cydnabod bod gan ddioddefwyr a thystion yn aml broblemau eraill sy'n croestorri â'u pryderon ynghylch mynychu'r llys, ac rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill – gan gynnwys Cyngor ar Bopeth Lleol – i'w helpu i gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Gweithiodd ein gwirfoddolwyr hyfforddedig yn ddiflino i roi'r wybodaeth ymarferol a'r gefnogaeth emosiynol yr oedd eu hangen ar dystion i deimlo'n fwy hyderus wrth roi tystiolaeth

Ein gwerth i gymdeithas

Rydym yn defnyddio model sefydledig i gyfrifo gwerth ariannol ein cyngor a'r canlyniadau cadarnhaol y mae'n gyfraniad yn cael ar unigolion a chymdeithas. Mae'n amhosib rhoi gwerth ar bopeth a wnawn, felly amcangyfrif ceidwadol yw hwn. I gael mwy o fanylion am yr arbedion hyn ac esboniad llawn o'n model, gweler ein modelu ariannol.



Cynhyrchwyd

£55 miliwn

o arbedion i'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus (buddiannau cyllidol). Drwy helpu i atal problemau rhag codi neu waethygu, rydym yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus fel iechyd, tai neu fudd-daliadau diweithdra.



Cynhyrchwyd

£405 miliwn

gennym mewn buddion economaidd a chymdeithasol ehangach (gwerth cyhoeddus). Mae datrys problemau yn gwella bywydau ac mae hyn yn golygu gwell lles, cyfranogiad a chynhyrchiant i'r bobl rydyn ni'n eu helpu.



Rydym wedi bod o fudd i bobl rydym yn eu helpu

£242 miliwn

canlyniadau ariannol yn dilyn cyngor.


Fel rhan o'n cyngor gallwn gynyddu incwm pobl, drwy ddileu dyledion, hawlio budd-daliadau a datrys problemau defnyddwyr.

Am ragor o wybodaeth ar sut rydym yn amcangyfrif ein gwerth i gymdeithas, gweler ein hatodiad technegol.


Y problemau y gwnaethom helpu pobl â nhw

Bob blwyddyn, mae miloedd o bobl yn dod atom gydag ystod o wahanol broblemau o fudd-daliadau i dai, cyfleustodau i ddyled. Mae hyn yn golygu bod ein data (gwybodaeth am y problemau y mae pobl yn dod atom i gael cymorth) yn rhoi cipolwg unigryw i ni ar yr heriau y mae pobl yn eu hwynebu ledled Cymru.

Yn 2022-2023, y prif faterion y gwnaeth ein cyngorwyr helpu pobl yn uniongyrchol â nhw oedd:



Y prif feysydd cyngor y daeth pobl i'n gwefan ar eu cyfer oedd:



Sut rydym yn helpu pobl

Rydyn ni'n gweld y person cyfan

Pan ddaw pobl atom am help, rydym yn edrych ar eu problemau mewn ffordd gyfannol. Rydym yn ymchwilio i'w hamgylchiadau ac yn cynnig cyngor ar fudd-daliadau a chynyddu incwm, yn aml yn gallu helpu pobl i sylweddoli bod ganddynt hawl i ostyngiadau ar bethau fel cyfleustodau, treth gyngor a chymorth ychwanegol. Ac os na allwn ni helpu gyda phroblem benodol, rydym ni'n gwybod pwy all. Mae ein platfform atgyfeirio yn gweithio law yn llaw â gwasanaethau lleol, partneriaid a phresgripsiynau cymdeithasol* i wneud yn siŵr bod pobl yn cael yr help sydd ei angen arnynt, pwy bynnag y maent wedi cysylltu â nhw gyntaf am gymorth. Ac rydym ni'n llais i'r bobl rydym ni'n eu helpu. Wrth i ni helpu pobl i ddod o hyd i'w ffordd ymlaen, rydym ynparu eu profiad personol â'r hyn rydym yn ei weld yn ein gwaith achos cyffredinol. Mae eu straeon, a'n data pwerus, yn ein galluogi i ddeall problemau ehangach a dod o hyd i atebion effeithiol.

* Mae presgripsiynau cymdeithasol yn elfen allweddol o Ofal Personol Cyffredinol sy'n cysylltu gofal cymdeithasol, gofal iechyd ac asiantaethau lleol gan gynnwys elusennau. Mae'n ddull sy'n cysylltu pobl â gweithgareddau, grwpiau, a gwasanaethau yn eu cymuned er mwyn bodloni'r anghenion ymarferol, cymdeithasol ac emosiynol sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u lles.

**Wrth i ni helpu
pobl i ddod o hyd
i'w ffordd ymlaen,
rydym yn paru eu
profiad personol
â'r hyn rydym yn ei
weld yn ein gwaith
achos cyffredinol.**

Ein gwasanaethau cynghori

Mae Advicelink Cymru yn wasanaeth wedi'i dargedu gan Gyngor ar Bopeth Cymru ar gyfer y bobl sydd â'r angen mwyaf am wasanaethau cynghori, a ariennir gan Lywodraeth Cymru o dan ei Chronfa Gynghori Sengl.

Mae Advicelink Cymru yn cynnig gwasanaeth cyngor gyda sicrwydd ansawdd ar draws Cymru, gan gwmpasu'r meysydd cyngor canlynol:



**budd-daliadau
lles**



**dyled a gallu
ariannol**



tai



**cyflogaeth a
gwahaniaethu**



addysg

Yn 2022-2023 cefnogodd Advicelink:



83,874

o bobl



Rhodddwyd cyngor ar

391,326

o faterion

(cynnydd o 15% ar nifer y materion a adroddwyd yn 2021-2022)



Dyweddodd

8 o bob 10

o bobl na fyddent wedi gallu dod o hyd i ffordd ymlaen heb Advicelink.



Enillwyd

£49 miliwn

o incwm ychwanegol i bobl sydd angen ein cymorth



Wedi dileu dros

£10 miliwn

o ddyledion

Mae ein data'n dangos yn glir bod gan bobl sydd angen ein cymorth nifer o faterion cysylltiedig*, gyda budd-daliadau a chredydau treth, budd-daliadau a Chredyd Cynhwysol, a dyled a gwasanaethau ariannol a gallu wedi'u hamlygu fel y materion a gyflwynwyd amlaf eleni.

* Mae Cyngor ar Bopeth yn cadw un cofnod ar bob person sy'n dod atom, p'un a ydym yn eu helpu dros y ffôn, wyneb yn wyneb yn ein rhwydwaith o swyddfeydd lleol, neu drwy ein gwasanaeth cyngor negeseuon ac e-bost. Mae pob cofnod yn cynnwys gwybodaeth am eu hoedran, rhyw, ethnigrwydd, anabledd a chyngor lleol. Rydym hefyd yn ychwanegu'r materion y maent yn ceisio cyngor yn eu cylch. Dim ond unwaith y caiff materion parhaus eu cofnodi, ac ychwanegir rhifynnau newydd at y cofnod hefyd. Mae hyn yn golygu y gall cofnod gyfrif materion lluosog ar draws 1 neu fwy o feysydd cyngor.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi gweld cynnydd cyflym yn nifer y bobl na allant fforddio hanfodion, fel bwyd ac ynni, gan arwain at gynnydd mewn ceisiadau am dalebau bwyd a thanwydd.

Mae Advicelink yn cynnwys nifer o wasanaethau a ddarperir mewn 6 rhanbarth ar draws Cymru gan rwydwaith o swyddfeydd Cyngor ar Bopeth lleol a phartneriaid cyngor a ariennir. Yn ogystal â gwasanaethau cymunedol ac arbenigol rhanbarthol, llinell ffôn o bell Gymru gyfan, mae Advicelink hefyd yn darparu:

Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi, ymgyrch cynyddu incwm a hawlio budd-daliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu cyngor cyfrinachol am ddim dros y ffôn, am fudd-daliadau y gall pobl fod â hawl iddynt. Mae'r gwasanaeth hwn wedi cefnogi hyd at 20,000 o bobl eleni. Mae'r llinell gymorth bwrpasol yn cael ei hyrwyddo drwy ymgyrchoedd hysbysebu ar y teledu, radio ac ar-lein gan Lywodraeth Cymru.

Llinell Gymorth Dyled y Sector Rhentu Preifat, gwasanaeth pwrpasol sy'n ymroddedig i helpu tenantiaid rhentu preifat yng Nghymru sy'n cael trafferth gyda phroblemau dyled. Nod y gwasanaeth yw helpu pobl a all fod yn teimlo'n ddiymadferth ac

wedi'u gorlethu i symud tuag at deimlo eu bod wedi'u grymuso i ddod ar ben eu harian ac yn y pen draw, i aros yn eu cartrefi. Darperir y gwasanaeth gan linell gymorth bwrpasol sy'n darparu cyngor diduedd a chyfrinachol am ddim.

Le i Anadlu Argyfwng Iechyd Meddwl, gwasanaeth cyngor ar ddyledion wedi'i dargedu ar gyfer pobl mewn argyfwng iechyd meddwl. Mae'r gwasanaeth yn gallu darparu gwell amddiffyniad rhag gweithredu gan greydwyr, gyda chefnogaeth Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy, am gyhyd ag y bydd mewn argyfwng ers 30 diwrnod.

Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhai sy'n Gadael Gofal, sy'n darparu taliad misol o £1,600 i bobl ifanc sy'n gadael gofal yn 18 oed. Mae gwasanaeth Cyngor ar Bopeth Cymru yn darparu cyngor uniongyrchol i bobl ifanc a chyngor a chymorth 'ail haen' i weithwyr proffesiynol awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

Mae hyn yn cynnwys cyngor ar bob cam, o weithio trwy 'gyfrifiad gwell eich byd' cyn y cynllun peilot i gyngor ar gyllidebu neu gymorth mewn argyfwng ariannol. Mae'r rhai sy'n gadael gofal yn gallu cael cyngor diduedd wedi'i deilwra i'w hamgylchiadau unigol.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi gweld cynnydd cyflym yn nifer y bobl na allant fforddio hanfodion.

Eiriol dros newid

Gwnaethom barhau i eirioli'n effeithiol ar ran pobl ledled Cymru i Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Mae ein Dangosfwrdd Costau Byw Cymru yn rhoi gwybodaeth amser real bron i lunwyr polisiau ar sut mae argyfwng costau byw yn effeithio ar bobl.

Cyfrannodd ein gwaith at ehangu Cynllun Cymorth Tanwydd Cymru i gyrraedd 400,000 o aelwydydd incwm isel. Sicrhawyd hyblygrwydd ychwanegol gennym yn y cymorth argyfwng sydd ar gael drwy'r Gronfa Cymorth Ddewisol. Derbyniwyd ein hargymhellion i sicrhau bod pawb sy'n derbyn Gostyngiad Treth y Cyngor yn gymwys i gael taliad costau byw.

Sicrhodd ein gwaith ar Ddiwygio'r Dreth Gyngor ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ddod â'r rheol gosbol ynghylch bil llawn i ben lle mae aelwydydd yn agored i dalu eu bil treth gyngor cyfan am golli cyn lleied ag un taliad.

Cyfrannodd ein gwaith at ehangu Cynllun Cymorth Tanwydd Cymru i gyrraedd 400,000 o aelwydydd incwm isel.

Ein hymrwymiad i'r Gymraeg

Gwella mynediad yn y Gymraeg

Yn Cyngor ar Bopeth credwn y dylai pawb gael mynediad at gyngor o ansawdd da yn Gymraeg. Yn 2020 lansiodd ein '[Cynnig Cymraeg](#)'—Cynnig Cymraeg gweithredol i'n helpu i ddarparu gwell gwasanaeth i bobl.

Rydym wedi gwneud cynnydd ond yn awr mae angen i ni edrych i'r dyfodol a gweld sut y byddwn yn gwreiddio'r Gymraeg yn ein gwasanaethau craidd fel bod mwy o bobl yn gallu cyrchu mwy o wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn Gymraeg.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cynyddu nifer y tudalennau Cymraeg ar ein gwefan genedlaethol, roedd yr holl ymgyrchoedd

ymwybyddiaeth genedlaethol yn ddwyieithog ar ystod o bynciau megis Sgarniau, Ynni, Gamblo, Defnyddwyr, Budd-daliadau Lles, Dyledion a Thai. Rydym wedi darparu deunyddiau dysgu Cymraeg i staff a gwirfoddolwyr yn ogystal â gwersi Cymraeg am ddim i gynyddu sgiliau'r gweithlu.

Mae darparu ein gwasanaethau'n fwy effeithiol yn Gymraeg ac i siaradwyr Cymraeg yn nod allweddol i'n Swyddog Iaith Gymraeg sy'n parhau i weithio'n ddiflino i gyflawni'r nod hwn—rydym yn gwybod bod lle bob amser i wella profiad pobl wrth ddefnyddio ein gwasanaethau a byddwn yn parhau i wneud gwelliannau yn y maes hwn.

Cynyddu ein cyrhaeddiad trwy bartneriaethau ystyrlon

Mae partneriaethau yn elfen sylfaenol o'n gwaith yng Nghymru, yn enwedig drwy ein cyllid Advicelink. Mae Advicelink yn wasanaeth wedi'i dargedu, sy'n sicrhau ein bod yn canolbwyntio'n benodol ar ddarparu cyngor i gymunedau sydd ddim yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol drwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau sydd eisoes â pherthnasoedd â'r cymunedau hynny a chynyddu eu hymwybyddiaeth o gyngor a gwneud atgyfeiriadau i Gyngor ar Bopeth Lleol. Y manteision i weithio mewn partneriaeth yw:

- Estyn allan at bobl trwy bartneriaid, i gael gwasanaethau cynghori i'r bobl hynny sydd eu hangen fwyaf cyn iddynt fod mewn argyfwng.

- Cydweithio fel bod taith y cwsmer mor syml â phosibl a bod y cymorth yn gweddu orau i anghenion y person rydym yn ei helpu.
- Gweithio i gryfderau: Cyngor gyda sicrwydd ansawdd gyda chymorth cofleidiol i bobl gan bartneriaid. Gallai cefnogaeth gan bartneriaid fod yn ymarferol, yn emosiynol, yn glinigol neu'n gymdeithasol.

Yn 2022-2023 gwelwyd twf yn ein gwaith partneriaeth ledled Cymru, gyda mwy o bartneriaid wedi ymuno â'n platfform atgyfeirio ar-lein. Roedd gennym bron i 80 o bartneriaid wrthi'n gwneud 5147 o e-atgyfeiriadau, gan ddod â chyfanswm yr e-atgyfeiriadau i dros 14,631 o e-atgyfeiriadau a wnaed ers dechrau'r prosiect yn 2020.

Gwelodd 2022-2023 dwf yn ein gwaith partneriaeth ledled Cymru, gyda mwy o bartneriaid wedi ymuno â'n platfform atgyfeirio ar-lein.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn helpu pobl i ddod o hyd i ffordd ymlaen.

Rydym yn darparu cyngor cyfrinachol ac annibynnol am ddim i helpu pobl i oresgyn eu problemau. Rydym yn llais i'n cleientiaid a defnyddwyr ar y materion sydd o bwys iddynt.

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb, ac yn herio gwahaniaethu ac aflonyddu.

Rydyn ni yma i bawb.

[**citizensadvice.org.uk**](https://citizensadvice.org.uk)



Manylion cyswllt:

Ar gyfer ymholiadau'r wasg e-bostiwrch press.office@citizensadvice.org.uk

Ar gyfer ymholiadau partneriaeth e-bostiwrch policy.cymru@citizensadvice.org.uk

© Cyngor ar Bopeth Hydref 2023

Cyngor ar Bopeth yw enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth.
Rhif elusen gofrestrdig 279057.